

**Claire Homard**  
Chief Officer (Education and Youth)  
Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid)



Your Ref/Eich Cyl

Our Ref/Ein Cyf CH

Date/Dyddiad 16 Rhagfyr 2020

Ask for/Gofynner am Claire Homard

Direct Dial/Rhif Union 01352 704190

Annwyl Rhieni a Gofalwyr

### **Mae gennym ni gyd ran i'w chwarae yn y frwydr yn erbyn Coronafeirws!**

Dros y misoedd diwethaf mae nifer o ysgolion yn Sir y Fflint wedi cael eu heffeithio gan ddisgyblion sydd wedi eu gorfodi i hunan-ynysu, oherwydd achosion positif yn eu 'swigod' ysgol.

Mae'r mwyafrif helaeth o deuluoedd wedi cydymffurfio gyda'r gofynion a nodwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gyda'r Nadolig yn nesáu mae'n bwysig atgoffa ein hunain pam fod yn rhaid i ni barhau i lynu at y rheolau hyn.

Dros yr wythnosau diwethaf, bu cynnydd cyson yn y niferoedd o bobl sy'n cael prawf COVID-19 positif yn y sir. Mae cydweithwyr mewn ysgolion wedi sylwi ar rai patrymau sy'n achosi pryder, sy'n mynd yn erbyn y canllawiau gwarchod iechyd cyfredol. Rhai o'r prif bryderon yw:

- Diffyg cadw at reolau hunan-ynysu, ar ôl derbyn cadarnhad o achos positif neu wrth aros am ganlyniadau profion, mae rhai esiamplau a welwyd yn Sir y Fflint yn cynnwys:
  - Oedolion sydd â symptomau, ac sydd yn gyrru eu plant i'r ysgol ac yn eu pigo i fyny o'r ysgol wrth aros am ganlyniadau eu profion.
  - Oedolion sydd â chysylltiad â phroffion positif yn gofalu am blant, tra dylent fod yn hunan-ynysu.
  - Yn enwedig o safbwynt disgyblion hŷn, diffyg dealltwriaeth o swigen a sut mae hunan-ynysu yn gweithio. Er enghraifft, parhau gyda swyddi rhan amser, cymdeithasu gyda chysylltiadau swigen.

County Hall, Mold. CH7 6ND  
[www.flintshire.gov.uk](http://www.flintshire.gov.uk)  
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6ND  
[www.siryfflint.gov.uk](http://www.siryfflint.gov.uk)



The Council welcomes correspondence in Welsh or English  
Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg

- Plant yn cymysgu y tu allan i amser ysgol – cysgu yn nhai ei gilydd, partïon pen-blwydd, chwarae gyda'i gilydd, cymysgu yn y parc, partïon teuluol. Dim ond yn yr ysgol mae swigod ysgol yn berthnasol – nid y tu allan. Hefyd:
  - Rhannu gofal plant y tu allan i amser ysgol – gofalwyr heb eu cofrestru yn mynd â phlant yn ôl gyda'u plant nhw o'r ysgol, hefyd neiniau a theidiau, modrybedd ac ewythrod.
  - Rhannu lifftiau (staff ysgol a rhieni yn mynd â phlant pobl eraill i'r ysgol) – mae hyn wedi digwydd mewn sawl ysgol.

Gyda Llywodraeth Cymru hefyd yn mynegi pryderon a'r potensial am gyfnodau pellach dan glo yn y dyfodol, rydym yn gofyn i bawb yn Sir y Fflint wneud eu rhan i gadw'r Sir yn ddiogel.

Rydym yn annog pob teulu i fod yn wyladwrus ac i gadw'n ddiogel dros wyliau'r Nadolig. Mae'r cyngor gan Lywodraeth Cymru yn dal yn ei le a gellir ei weld yma:

<https://llyw.cymru/coronafeirws> ac mae'n cynghori:

### **Cadwch Gymru'n ddiogel:**

- arhoswch allan o dai pobl eraill, heblaw mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn
- ceisiwch gyfyngu faint o wahanol bobl yr ydych chi'n cyfarfod
- cadwch bellter cymdeithasol
- golchwch eich dwylo'n rheolaidd
- gweithiwch o gartref os gallwch

Dywedodd y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Addysg ac Ieuenctid:

“Nid yw hwn yn gyfnod "arferol" ac mae coronafeirws yn bodoli ym mhob un o'n cymunedau. Rhaid i ni gyd weithio gyda'n gilydd i gadw Sir y Fflint yn ddiogel, gan osgoi cyfarfod pobl sydd ddim yn byw efo ni, gwisgo gorchudd wyneb, a dilyn y rheolau sydd yn eu lle i'n cadw ni gyd yn ddiogel.”

Dymuniadau gorau ar gyfer Nadolig heddychlon a diogel.

Yn gywir

*Claire Homard*

Claire Homard  
Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid